OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2005 Rhif 1354 (Cy.102)

LANDLORD A THENANT, CYMRU

Rheoliadau Tai Lesddaliad (Hysbysiad o Warchodaeth Yswiriant) (Cymru) 2005

Wedi'u gwneud - -	*17 Mai 2005*
Yn dod i rym - -	*31 Mai 2005*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 164(5)(d) a (6)(a) o Ddeddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002(**1**), drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Tai Lesddaliad (Hysbysiad o Warchodaeth Yswiriant) (Cymru) 2005 a deuant i rym ar 31 Mai 2005.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran tai(**2**) yng Nghymru'n unig.

Cynnwys ychwanegol hysbysiad o warchodaeth

2. Rhaid i hysbysiad o warchodaeth(**3**) bennu (Yn ychwanegol at y manylion y cyfeirir atynt ym mharagraff (a) i (c) o is-adran (5) o adran 164 (Yswiriant nad yw gydag yswirwyr y landlord) o Ddeddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002) —

(a) cyfeiriad y tŷ sy'n cael ei yswirio o dan y polisi;

(b) swyddfa gofrestredig yr yswiriwr awdurdodedig(**4**) neu, os nad oes gan yr yswiriwr awdurdodedig swyddfa gofrestredig, ei brif swyddfa;

(c) Rhif y polisi;

(ch) pa mor aml y mae premiymau'n daladwy o dan y polisi;

(d) swm unrhyw dâl ychwanegol sy'n daladwy gan y tenant o dan y polisi;

(**1**) 2002 p.15. *Gweler* y diffiniadau o "prescribed" yn adran 164(10) o Ddeddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002. Yn rhinwedd adran 179(1) o'r Ddeddf honno, Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r "the appropriate national authority" o ran Cymru. (Mae'r pwerau a roddir gan adran 164(5)(d) a (6)(a) o'r Ddeddf honno'n arferadwy, o ran Cymru, gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd y diffiniad o "prescribed" ac adran 179(1).)

(**2**) Yn rhinwedd adrannau 164(10) a 179(2) o Ddeddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002, yr un ystyr sydd i "house" yn adran 164 ag sydd iddo at ddibenion Rhan 1 o Ddeddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad 1967 (p.88). Yn y Ddeddf honno yn adran 2 y ceir y diffiniad o "house" .

(**3**) *Gweler* adran 164(3) o Ddeddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002.

(**4**) *Gweler* y diffiniad o "authorised insurer" yn adran 164(10) o Ddeddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002.

(dd) os bydd tâl ychwanegol yn daladwy, p'un a yw'n daladwy o ran pob cais a wneir o dan y polisi neu mewn amgylchiadau penodol yn unig ac, yn yr achos olaf hwn, ddisgrifiad byr o'r amgylchiadau hynny;

(e) p'un a yw'r polisi wedi'i adnewyddu ai peidio ac, os cafodd ei adnewyddu, y dyddiad y gwnaed hynny ddiwethaf;

(f) os na chafodd y polisi ei adnewyddu, y dyddiad y daeth yn effeithiol;

(ff) bod y tenant wedi'i fodloni bod y polisi'n gwarchod ei fuddiannau; a

(g) nad oes gan y tenant unrhyw reswm dros gredu nad yw'r polisi'n gwarchod buddiannau'r landlord.

Ffurf ar hysbysiad o warchodaeth

3. Rhaid i hysbysiad o warchodaeth fod ar y ffurf a geir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn, neu ar ffurf sylweddol debyg ei heffaith.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**5**)

D. Elis-Thomas
17 Mai 2005 Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**5**) 1998 p.38.

YR ATODLEN Rheoliad 3

FFURF AR HYSBYSIAD O WARCHODAETH
DEDDF CYFUNDDALIAD A DIWYGIO CYFRAITH LESDDALIAD 2002Hysbysiad o Warchodaeth

1: To:

(rhowch enw a chyfeiriad y landlord gan gynnwys ei god post)		*(insert name and address of the landlord including postcode)*
	1	
Fi yw ☐		I am
Ni yw ☐		We are
(ticiwch y blwch priodol) tenant(iaid) y tŷ yn:		*(tick the appropriate box) the tenant(s) of the house at:*
(mewnosoder y cyfeiriad gan gynnwys y cod post)		*(insert address including post code)*
Mae'r tŷ wedi'i yswirio o dan bolisi yswiriant a ddyroddwyd gan:	2	The house is insured under an insurance policy issued by:
(mewnosoder enw'r yswiriwr a'i swyddfa gofrestredig neu, os nad oes gan yr yswiriwr swyddfa gofrestredig, ei brif swyddfa) sy'n yswiriwr awdurdodedig o fewn ystyr adran 164 o Ddeddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002.		*(insert name of insurer and its registered office or, if the insurer has no registered office, its head office)* who is an authorised insurer within the meaning of section 164 of the Commonhold and Leasehold Reform Act 2002.